| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu** |
| **Dyddiad:** | **28 Mehefin, 2017** |
| **Pwnc:** | **Diweddariad ar Archwilio Mewnol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Marc Jones, Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151**<br>**01248 752601**<br>**marcjones@ynysmon.gov.uk** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **Marion Pryor, Pennaeth Archwilio a Risg**<br>**01248 752611**<br>**marionpryor@ynysmon.gov.uk** |
| **Natur a rheswm dros adrodd:**<br>Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ar y cynnydd a wnaed yn ddiweddar yn y maes Archwilio Mewnol a hynny o ran cyflwyno'r gwasanaeth, darparu sicrwydd, adolygiadau a gwblhawyd, perfformiad ac effeithiolrwydd wrth yrru gwelliant. Mae hefyd yn diweddaru'r Pwyllgor ar y cynnydd a wnaed ar eitemau penodol y mae'r Pwyllgor wedi gofyn amdanynt. | |

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa fel yr oedd ar ddiwedd mis Mai 2017 ar:

- Adroddiadau Archwilio Mewnol a gyhoeddwyd ers 1 Ebrill 2017
- Gwaith dilynol o adroddiadau Archwilio Mewnol blaenorol
- Cynnydd o ran cyflawni'r Cynllun Blynyddol 2017/18 ar gyfer Archwilio Mewnol
- Diweddariadau penodol y gofynnwyd amdanynt gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu

## 2. Argymhelliad

2.1. Bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn nodi'r cynnydd diweddaraf a wnaed gan yr Adain Archwilio Mewnol o ran cyflwyno gwasanaeth, darparu sicrwydd, adolygiadau a gwblhawyd, perfformiad ac effeithiolrwydd wrth yrru gwelliant.

## 3. Cefndir

3.1. Dyma fy adroddiad diweddaru cyntaf fel y Pennaeth Archwilio a Risg newydd. Ar hyn o bryd, rwyf wrthi'n cynnal adolygiad o'r gwasanaeth archwilio mewnol a'i ddulliau, gan gynnwys fformatau adrodd. Felly, mae

diwyg yr adroddiad hwn yn debygol o newid ar ôl ymgynghori gyda’n cydranddeiliaid, yn enwedig y Swyddog Adran 151 a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

3.2. Rydym yn darparu barn ar y lefel gyffredinol o sicrwydd ar gyfer pob aseiniad archwilio mewnol unigol. Mae hyn yn cymryd i ystyriaeth ddisgwyliadau uwch reolwyr a chydranddeiliaid eraill ac fe'i cefnogir gyda gwybodaeth ddigonol, ddibynadwy a pherthnasol. Wrth ddod i gasgliad, rydym yn defnyddio'r diffiniadau canlynol:

**Diffiniad o Sgôr Sicrwydd**

| Lefel Sicrwydd | Diffiniad | Ymyrraeth Rheolwyr |
|---|---|---|
| **Sicrwydd sylweddol** | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn **dda.**<br><br>Dim camgymeriadau sylweddol o bwys wedi eu canfod. | Nid oes angen i reolwyr gymryd unrhyw gamau neu mae angen camau lefel isel yn unig.<br><br>Canfyddiadau y mae modd yn hawdd i reolwyr llinell roi sylw iddynt. |
| **Sicrwydd rhesymol** | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a / neu reolaeth fewnol yn **rhesymol.**<br><br>Rhywfaint o anghysondeb a chyfleoedd yn parhau i fodoli i liniaru yn erbyn risgiau pellach. | Mae angen i’r Rheolwyr weithredu ar lefel gymedrol i isel.<br><br>Mae modd rhoi sylw i’r canfyddiadau ar lefel gwasanaeth. |
| **Sicrwydd cyfyngedig** | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn **gyfyngedig.**<br><br>Mae bylchau yn y broses sy'n gadael y gwasanaeth yn agored i risgiau. Nid yw amcanion yn cael eu diwallu neu eu bodloni heb sicrhau gwerth am arian. | Mae angen i’r Rheolwyr weithredu ar lefel uchel i gymedrol.<br><br>Bydd angen i’r penaethiaid gwasanaeth ddatrys rhai o’r canfyddiadau ac efallai y bydd angen rhoi gwybod i’r UDA. |
| **Sicrwydd Ychydig iawn** | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn **sylweddol ddiffygiol.**<br><br>Ystyrir bod y rheolaethau allweddol yn annigonol gydag absenoldeb o leiaf un mecanwaith rheoli hanfodol. Hefyd, mae angen gwella cydymffurfiaeth â rheolaethau a daethpwyd o hyd i wallau a phethau sydd heb eu gwneud | Mae angen i’r Rheolwyr weithredu ar lefel uchel mewn nifer o feysydd.<br><br>Gwendidau mewn rheolaeth y mae angen i’r UDA roi sylw brys iddynt gydag ymyrraeth o bosib gan y Pwyllgor Gwaith. |

## 4. Adroddiadau Archwilio Mewnol a gyhoeddwyd yn ddiweddar

4.1. Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o adroddiadau Archwilio Mewnol a gyhoeddwyd yn ddiweddar, gan gynnwys y Raddfa Sicrwydd gyffredinol a’r nifer o Argymhellion a godwyd yng nghynllun gweithredu’r adroddiad.

**Ynys Ynni - Ebrill 2017 (Llithiad o 2016/17)**

| | Risgiau / materion | |
|---|---|---|
| Sicrwydd sylweddol | 0 | Trychinebus |
| | 0 | Sylweddol |
| | 0 | Cymedrol |
| | 0 | Bychan |

4.2. Mae rhaglen Ynys Ynni Môn ™ yn ymdrech ar y cyd rhwng nifer o gydranddeiliaid yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat sy’n gweithio mewn partneriaeth i roi Ynys Môn ar flaen y gad o ran ymchwilio i a datblygu ynni, ei gynhyrchu a’i wasanaethu, gan ddod â manteision economaidd enfawr o bosib. Uned Datblygu Economaidd y Cyngor sy’n rheoli'r rhaglen.

4.3. Amcan y rhaglen Ynys Ynni yw bod yn gyfrwng ar gyfer cyfleoedd twf a datblygiad cyflogaeth. Mae'r rhaglen yn rheoli risgiau, cydranddeiliad, buddion, adnoddau ac ansawdd. Mae angen cydberthynas rhwng yr holl agweddau hyn er mwyn ffurfio ymagwedd drefnus o ddelio gyda’r rhaglen.

4.4. Cafodd yr archwiliad ei ddylunio i roi sicrwydd bod trefniadau llywodraethu priodol ar gael sy’n sicrhau bod pwrpas a chanlyniadau’r bartneriaeth a'r fframwaith yn cael eu cyflawni, a chânt eu monitro’n rheolaidd er mwyn lliniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithio o fewn fframwaith ac mewn partneriaeth.

4.5. Daethpwyd i'r casgliad bod trefniadau llywodraethu effeithiol yn bodoli:

- Mae Bwrdd Strategol wedi cael ei sefydlu
- Mae’r risgiau wedi cael eu hasesu a chamau lliniaru wedi eu nodi
- Mae 'Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth' yn bodoli ac wedi ei lofnodi gan bob parti
- Mae’r dulliau caffael yn cydymffurfio â rheolau gweithdrefn contract ffurfiol y Cyngor a hysbysebwyd ar safle Sell2Wales
- Caiff y gyllideb ei rheoli’n effeithiol

4.6. Dim risgiau / materion sydd angen sylw.

**Gwirio Stoc, Uned Cynnal a Chadw Tai, Gaerwen - Mai 2017**

| | Risgiau / materion | |
|---|---|---|
| Sicrwydd cyfyngedig | d/b | Trychinebus |
| | d/b | Sylweddol |
| | d/b | Cymedrol |
| | d/b | Bychan |

4.7. Mae'r adolygiad yn cael ei gynnal bob blwyddyn i roi sicrwydd bod y ffigyrau stoc yn gywir at ddibenion cyfrifyddu diwedd y flwyddyn.

4.8. Ar ôl cwblhau'r archwiliadau priodol, daethom i'r casgliad nad oedd y cofnodion o’r stoc a gedwir yn y depo yn ddigon cywir ac nad oeddynt yn darparu cofnod dibynadwy o lefelau stoc ar ddiwedd y flwyddyn. Oherwydd y math o archwiliad a gynhaliwyd, ni wnaed unrhyw argymhellion gennym. Fodd bynnag, rydym wedi gofyn am sicrwydd gan y Pennaeth Tai fod camau ar y gweill i fynd i'r afael â'r sefyllfa.

4.9. Yn fyr, sefydlodd y Cyngor ymarfer caffael i gomisiynu un cyflenwr 'Storfa a Reolir' i’w gynorthwyo i gyflawni ei raglen atgyweirio a chynnal a chadw.

4.10. Yn dilyn proses dendro gystadleuol drwy Sell2Wales, dyfarnodd y Cyngor gontract a phennwyd Mehefin 2016 fel y dyddiad trosglwyddo dros dro. Fodd bynnag, er bod y contract yn weithredol a’r gofynion o ran TGCh yn mynd yn dda, cododd problem mewn perthynas â’r darpariaethau TUPE, yn arbennig, y rhwymedigaethau o amgylch y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Ym mis Mai 2017 yn dilyn llawer o ddeialog ac yn dilyn cyngor gan Adran Gyfreithiol y Cyngor, gwrthododd y Pennaeth Tai y cynnig, a daeth yr achos i ben o'r ddwy ochr.

4.11. Mae’r Pennaeth Tai ar hyn o bryd yn adolygu'r opsiynau sydd ar gael i'r Cyngor.

**Uned Cynnal a Chadw Tai - Mai 2017 (2016/17 llithriad)**

| | Risgiau / materion | |
|---|---|---|
| Sicrwydd cyfyngedig | 1 | Trychinebus |
| | 9 | mawr |
| | 6 | cymedrol |
| | 2 | mân |

4.12. Mae'r Uned Cynnal a Chadw Tai yn seiliedig yn Nepo Gaerwen. Mae'n darparu gwasanaethau cynnal a chadw ac atgyweirio ar gyfer tai cymdeithasol y Cyngor. Mae'r gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio yn cael ei reoli dan y system Tai, Orchard, sef canolbwynt ein harchwiliad.

4.13. Mae'r system yn caniatáu i dasgau gael eu creu a'u neilltuo i weithwyr perthnasol. Mae'r gweithwyr yn diweddaru’r tasgau o bell drwy ddefnyddio dyfais llaw. Unwaith y bydd tasgau wedi'u cwblhau a'u diweddaru ar y system, mae'r system yn cynhyrchu anfonebau yn awtomatig ar gyfer codi ar y Cyngor am y gwaith.

4.14. Mae ein dyfarniad 'Sicrwydd Cyfyngedig' i’w briodoli’n bennaf i’r risgiau sy’n gysylltiedig â’r rheolaethau o fewn y system. Caiff staff fynediad i greu, addasu, cwblhau a chanslo cofnodiadau ar y system ac mae ganddynt fynediad at adnoddau sydd y tu draw i’r hyn sy'n angenrheidiol i’w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau. Mae gwahanu’r dyletswyddau hyn yn sylfaenol er mwyn sicrhau bod trafodion yn cael eu cofnodi’n gywir ac yn llawn.

4.15. Amlygodd y profion a roddwyd ar y system ei bod yn ymddangos bod y data a fewnbynnir ar gyfer dyddiadau cwblhau tasgau yn cael ei ystumio er mwyn cyflawni targedau perfformiad ac nad yw esboniadau am ganslo yn cael eu cofnodi neu eu hawdurdodi fel mater o drefn. Caiff y risg ei chymhlethu ymhellach gan yr analluogi i gynhyrchu adroddiad sy'n rhestru mynediad defnyddwyr a hawliau caniatâd a diffyg gweithdrefnau wedi'u dogfennu i roi cyfarwyddiadau i staff ynghylch defnyddio’r system a hawliau mynediad iddi.

4.16. Nid yw'r system yn cynnwys costau staff fesul tasg ac o’r herwydd nid yw gwir gostau pob tasg yn cael eu nodi a'u hadennill. O’r herwydd, mae’r cyfrif masnachu yn cael ei gam-ddatgan sy’n arwain at wneud penderfyniadau a dadansoddiadau gwerth am arian gwael.

4.17. Mae cysoni anfonebau a dderbyniwyd gyda thasgau a gofnodwyd ar y system hefyd yn broblemus gan nad oes rhyngwyneb rhwng y system ariannol a'r system Orchard.

4.18. Mae'r diffyg rheolaethau mewnol yn y system Orchard yn tanseilio dilysrwydd y data. Mae perygl y gall swyddogion ystumio neu gam-ddatgan data sy’n arwain at benderfyniadau gwael, anallu i reoli perfformiad neu’r posibilrwydd o dwyll.

4.19. Datblygwyd Cynllun Gweithredu gennym ar y cyd â'r Pennaeth Tai. Dylai Rheolwyr fynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r argymhellion ar unwaith, gyda chynlluniau i’r gwasanaeth i fynd i'r afael â'r gweddill ohonynt erbyn Mawrth 2018.

**Prif System Gyfrifo - Mai 2017 (2016/17 llithriad)**

| Sicrwydd rhesymol | Risgiau / materion | |
|---|---|---|
| | 0 | Trychinebus |
| | 0 | Sylweddol |
| | 2 | Cymedrol |
| | 0 | Bychan |

4.20. Asesiad oedd yr adolygiad o reolaethau'r Gwasanaeth Cyllid i reoli prif system gyfrifyddu'r cyngor a'r prosesau sydd ar waith i wirio ei gywirdeb.

4.21. Cadarnhaodd y profion bod y Gwasanaeth Cyllid yn rheoli ac yn cynnal y brif system gyfrifyddu yn iawn. Cafwyd tystiolaeth a oedd yn cefnogi hynny:

- Mae gan y Tîm Cyfrifyddu brosesau rhyngwynebu ar gyfer amserlennu ac mae rheolaethau priodol yn bodoli ar gyfer gwirio balansau er mwyn sicrhau bod yr holl drafodion a fewnbynnir yn ddilys ac yn cael eu rhoi ar waith yn gywir
- Mae atebolrwydd ar gyfer cynnal y system a'r system defnyddwyr yn bodoli ac mae dyletswyddau'r tîm wedi eu gwahanu yn ddigonol
- Mae'r system yn cynnal llwybr archwilio priodol i sicrhau bod modd olrhain yr holl drafodion i'w ffynhonnell, dyddiad ac amser priodol
- Mae gweithdrefnau'n bodoli ar gyfer diwedd y mis a gweithrediad y swyddogaeth gyfrifeg ar ddiwedd y flwyddyn
- I bwrpas paratoi ar gyfer cau'r cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn ac oherwydd nad yw'r Adain Incwm yn cysoni'r system dyledwyr, aeth y Cynorthwy-ydd Cyfrifeg yn yr Adain Gyfrifeg ati i gysoni'r system dyledwyr i'r cyfriflyfr cyffredinol er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw wallau perthnasol yn y cyfriflyfr cyffredinol ac ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw wallau perthnasol.

4.22. Fodd bynnag, nodwyd y risgiau cymedrol canlynol:

- Nid yw'r Swyddog Incwm yn clirio'r incwm anhysbys yn brydlon o'r cyfrif incwm dros dro. Yn y gorffennol, mae'r cyfrif incwm dros dro wedi bod yn cael ei glirio bob blwyddyn. Fodd bynnag, mae'r oedi hwn wrth glirio'r cyfrif yn dal golygu oedi gyda gweithredu prosesau cyfrifyddol eraill yn brydlon.
- Mae'r gwasanaeth TGCh yn gwneud copïau wrth gefn o'r data a'r system o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, nid yw'r gwasanaeth wedi rhoi prawf ar y system wrth gefn i sicrhau y byddai modd adfer y data a'r system yn gywir ac yn brydlon petai trychineb yn digwydd.

- Nid oedd balansau o'r rhyngwyneb dyledion cyflogres yn dangos ar ddyddlyfr system y dyledwyr ac maent yn cael eu debydu i'r cyfrif dal ar gyfer Mân Ddyledwyr. Ym marn yr Uwch Gyfrifydd, nid yw'r balansau yn cael eu cywiro yn y system ar adeg rhoi sylw i'r cysoniadau arferol. Os nad ydynt yn cael eu cywiro, mae'r system yn parhau i amlygu fod problem ac mae risg o gamddatganiad yn y cyfrifon. Nid ydym wedi gwneud argymhelliad ond byddwn yn adolygu'r broses yn ein hadolygiad o'r system Dyledwyr, sydd wedi ei drefnu ar gyfer mis Mehefin 2017.

4.23. Rydym wedi datblygu Cynllun Gweithredu ar y cyd â'r Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg, sy'n bwriadu mynd i'r afael â'r argymhellion erbyn mis Rhagfyr 2017.

## 5. Gwaith dilynol o adroddiadau Archwilio Mewnol blaenorol

5.1. Mae'r rhan fwyaf o'n hadroddiadau Archwilio Mewnol yn nodi risgiau a gwendidau o safbwynt rheolaeth. Er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud ein gwaith yn unol ag awydd y Cyngor i roi sylw i risgiau, rydym yn asesu'r risgiau a nodwyd yn erbyn fframwaith rheoli risg y Cyngor ac yn graddio'r argymhellion fel trychinebus, mawr, canolig neu fach.

5.2. Ar y cyd â rheolwyr, rydym yn datblygu Cynllun Gweithredu ar gyfer rheolwyr er mwyn cofnodi'r camau y mae angen eu cymryd i fynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd gennym. Bydd rheolwyr yn cytuno ar gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r risgiau, gan gynnwys cyfrifoldebau ac amserlenni.

5.3. Rydym yn dilyn i fyny'r camau a gymerwyd i fonitro cynnydd ac yn adrodd ar gynnydd i'r Swyddog Adran 151 a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

5.4. Rydym yn asesu pob archwiliad dilynol yn ôl y cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r camau rheoli:

| Cynnydd o ran gweithredu argymhellion | Ystyriaeth o’r argymhellion sylfaenol | Ystyriaeth o’r argymhellion pwysig | Ystyriaeth o fân argymhellion |
|---|---|---|---|
| **Cynnydd da** | Dim argymhellion yn parhau i fod angen sylw | Mae argymhellion categori canolig sy’n parhau i fod angen sylw yn y broses o gael eu rhoi ar waith | Mae argymhellion categori isel rhagorol yn y broses o gael eu rhoi ar waith |
| **Cynnydd rhesymol** | Mae argymhellion categori uchel sy’n parhau i fod angen sylw yn y broses o gael eu rhoi ar waith | Mae argymhellion categori canolig sy’n parhau i fod angen sylw yn y broses o gael eu rhoi ar waith | argymhellion categori Isel yn y broses o gael eu gweithredu |
| **Bron dim cynnydd** | Cynnydd a wnaed yn anfoddhaol | Cynnydd a wnaed yn anfoddhaol | Cynnydd a wnaed yn anfoddhaol |

5.5. Ar hyn o bryd, rydym yn dilyn i fyny'r holl adroddiadau waeth ba lefel sicrwydd a roddwyd gennym. Oherwydd bod adnoddau’n lleihau a blaenoriaethau’n cael eu gweithredu’n fwy seiliedig ar risg, bydd hyn yn cael ei adolygu.

5.6. Rydym wrthi'n llunio adroddiad o'r perfformiad o ran gweithredu'r holl argymhellion sy'n weddill, a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nesaf ym mis Gorffennaf 2017.

5.7. Yn y cyfamser, rydym wedi cwblhau dau adolygiad dilynol:

**Ffioedd Rheoliadau Adeiladu - Arolygu a Gorfodi (Archwiliad Dilynol Cyntaf) Ebrill 2017**

| | | Argymhellion gwreiddiol | Argymhellion sy’n parhau i fod angen sylw |
|---|---|---|---|
| **Bron dim cynnydd** | **Trychinebus** | | |
| | **Sylweddol** | | |
| | **Cymedrol** | **3** | **3** |
| | **Bychan** | **2** | **2** |

5.8. Adolygiad o Ffioedd Rheoliadau Adeiladu’r Cyngor – Cynhaliwyd archwiliad o drefniadau arolygu a gorfodi ym mis Awst 2016, a chafwyd graddfa 'Sicrwydd rhesymol'.

5.9. Mae'r Gwasanaeth Rheoli Adeiladu yn darparu cyngor, cefnogaeth, gwasanaeth gwirio cynlluniau ac archwiliadau safle er mwyn sicrhau bod y

diwydiant adeiladu, trigolion, gweithwyr proffesiynol eraill a chwsmeriaid mewnol yn cydymffurfio gyda Rheoliadau Adeiladu.

5.10. I bwrpas yr adolygiad dilynol hwn, cafodd y rheolwr sy'n gyfrifol am weithredu'r argymhellion ei gyfweld er mwyn gweld beth oedd statws y camau gweithredu y cytunwyd arnynt.

5.11. Cadarnhaodd Arweinydd y Tîm Rheoli Adeiladu nad oedd unrhyw un o'r pump argymhelliad a wnaed wedi cael eu gweithredu hyd yma. Roedd awgrym i brynu modiwl o fewn CIVICA. Fodd bynnag, eglurwyd bod system newydd yn cael ei chyflwyno (Arcus) a fydd yn cael ei defnyddio i reoli arolygiadau. Mae argymhellion a aseswyd fel rhai nad oeddynt wedi cael eu gweithredu'n llawn wedi cael eu hailadrodd.

5.12. Daethpwyd i'r casgliad mai ychydig iawn o gynnydd o wnaeth y Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu o ran gweithredu'r camau y cytunwyd arnynt i fynd i'r afael ag argymhellion yr archwiliad. Fodd bynnag, mae'r Arweinydd y Tîm Rheoli Adeiladu wedi rhoi sicrwydd y bydd y rhan fwyaf o'r argymhellion yn cael sylw erbyn diwedd mis Gorffennaf 2017.

5.13. Byddwn yn cynnal adolygiad dilynol pellach yn ystod Awst 2017 i fonitro cynnydd o ran gweithredu'r camau rheoli.

**Adfer Trychineb TGCH - Trydydd Archwiliad Dilynol (Mehefin 2017)**

| | | Argymhellion gwreiddiol[1] | Argymhellion sy'n parhau i fod angen sylw[2] |
|---|---|---|---|
| Bron dim cynnydd | Trychinebus | | |
| | Sylweddol | 8 (Uchel) | 0 |
| | Cymedrol | 5 (Canolig) | 2 |
| | Bychan | (Isel) | 4 |

5.14. Cynhaliwyd adolygiad o'r Cynllun Adfer yn dilyn Trychineb TGCh a chyhoeddwyd adroddiad ym mis Gorffennaf 2015 yn rhoi gradd 'Sicrwydd Lleiaf' oherwydd mai ychydig iawn oedd y gwasanaeth TGCh wedi ei wneud i fynd i'r afael argymhellion adolygiad blaenorol. Ers hynny, cynhaliwyd dau adolygiad dilynol ar gynnydd, y naill ym mis Mawrth 2016 a'r llall ym mis Ionawr 2017. Daeth y ddau adroddiad i'r casgliad fod cynnydd wedi'i wneud gyda hynny'n at radd 'Sicrwydd rhesymol'. Adroddwyd ar yr holl adroddiadau cynnydd i'r Pwyllgor Archwilio a

[1] Eu categoreiddio fel uchel, canolig ac isel
[2] Ail-asesu yn ôl fframwaith rheoli risg y Cyngor

Llywodraethu, sydd wedi bod yn gofyn yn barhaus am yr adroddiad dilynol / cynnydd diweddaraf.

5.15. Yn yr adolygiad diwethaf a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2017, adroddwyd bod tri o argymhellion lefel uchel a thri o argymhellion lefel canolig yn parhau i fod angen sylw.

5.16. Rydym wedi dod i’r casgliad bod y Gwasanaeth TGCh wedi gwneud 'llawer o gynnydd' o ran gweithredu’r camau y cytunwyd arnynt i fynd i'r afael ag argymhellion yr archwiliad. Fodd bynnag, mae'r Tîm Rheoli TGCh wedi darparu sicrwydd y bydd y rhan fwyaf o'r argymhellion wedi cael sylw cyn diwedd mis Gorffennaf 2017. Mae dau o’r camau gweithredu sy'n weddill yn gyfrifoldeb i’r Gwasanaethau Eiddo, a byddant yn cael eu gweithredu erbyn diwedd mis Mawrth 2018.

5.17. Byddwn yn cynnal adolygiad dilynol pellach yn ystod Awst 2017 i fonitro cynnydd o ran gweithredu'r camau rheoli.

## 6. Cynnydd o ran cyflawni’r Cynllun Gweithredu Archwilio Mewnol 2017/18

6.1. Oherwydd y gwaith a oedd wedi llithro o Gynllun Blynyddol 2016/17, mae gwaith ar Gynllun Blynyddol 2017/18 wedi bod yn araf.

6.2. Fodd bynnag, mae'r tîm archwilio yn brysur yn dal i fyny ac mae gwaith yn mynd rhagddo mewn 14 maes ar hyn o bryd:

- Diogelu Corfforaethol – Archwiliad Dilynol Cyntaf
- Caffael Corfforaethol (llithriad o 2016/17)
- Diwylliant Moesegol (llithriad o 2016/17)
- Budd-daliadau Tai (llithriad o 2016/17)
- Diogelu Data a Llywodraethu Gwybodaeth
- Safonau Masnach - Cofrestriadau Sifil
- Treth y Cyngor a Threthi Cenedlaethol Annomestig
- Mân Ddyledwyr
- Cludiant ysgol
- Ardystiad Grant Rhentu Doeth Cymru 2016/17
- Credydwyr
- Ardystiad Grant Gwella Addysg 2016/17
- Gwasanaethau Trwyddedu
- Ardystiad Grant Amddifadedd Disgyblion 2016/17

6.3. Bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn adolygu ac yn diwygio'r Cynllun Blynyddol yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau ei fod yn rhoi sylw i bethau sy’n parhau i fod yn berthnasol ac yn seiliedig ar risg. Adroddir ar unrhyw newidiadau i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ym mhob cyfarfod.

6.4. Er bod pethau wedi bod yn ara’ deg ar y cychwyn, bydd y gwasanaeth yn cwblhau digon o waith i ganiatáu i'r Pennaeth Archwilio a Risg  ddarparu barn archwilio flynyddol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

## 7. Diweddariadau y gofynnwyd amdanynt gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu

7.1. Yn ei gyfarfod ar 28 Mawrth, 2017, gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariadau ar eitemau penodol:

### Adroddiad Archwilio Mewnol ar Ddiogelu Corfforaethol

7.2. Rydym yn y broses o gynnal adolygiad dilynol o'r adroddiad archwiliad mewnol ar Ddiogelu Corfforaethol a gyhoeddwyd ym Medi 2016. Arweiniodd yr adolygiad gwreiddiol arwain at sgôr 'Sicrwydd Cyfyngedig'.

7.3. Yn yr adroddiad gwreiddiol, gwnaed saith o argymhellion blaenoriaeth lefel 'Uchel', a 25 o argymhellion blaenoriaeth lefel 'Canolig'.

7.4. Mae’r rheolwyr sy'n gyfrifol am y gwaith o weithredu'r argymhellion wedi cael eu cyfweld er mwyn pennu statws y camau gweithredu y cytunwyd arnynt. Lle yr oedd hynny’n briodol, rydym hefyd wedi cynnal profion archwilio i gadarnhau bod y rheolaethau yn eu lle.

7.5. Yn ôl yr arwyddion cynnar, gwnaed cynnydd rhesymol o ran gweithredu’r camau y cytunwyd arnynt, ac roedd adroddiad drafft yn cael ei gyhoeddi ar 14 Mehefin 2017. Byddwn yn cyflwyno adroddiad ar ganlyniadau'r adolygiad dilynol i gyfarfod mis Gorffennaf o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

### Adfer ar ôl Trychineb TGCh

7.6. Adroddir ar ganlyniadau ein gwaith dilynol yn y maes hwn yn adran 5 uchod.

### Gwasanaethau Plant - Adroddiad AGGCC

7.7. Cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) adroddiad ym mis Mawrth 2017 yn dilyn arolygiad o'r Gwasanaeth Plant. Roedd yr adroddiad yn cynnwys 14 o argymhellion, ac oedd saith ohonynt yn cael eu hystyried fel rhai yr oedd angen rhoi blaenoriaeth iddynt. Oherwydd y pryderon sylweddol a nodwyd, bydd AGGCC yn ystyried cynnal ail arolygiad ymhen 12-18 mis.

7.8. Gofynnodd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a, sicrwydd gan y cyn Reolwr Archwilio fod prosesau ar waith i sicrhau bod yr argymhellion AGGCC yn cael sylw.

7.9. Ar 13 a 20 Mawrth 2017 cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant adroddiad i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn gyntaf ac yna i'r Pwyllgor Gwaith. Yn ogystal cyflwynwyd cynllun gweithredu a oedd yn cynnwys y camau gweithredu a oedd wedi eu cynnwys fel rhan o'r Cynllun Gwella Gwasanaeth. Mae croes gyfeiriadau'n cael eu gwneud lle y mae hynny'n berthnasol i'r argymhellion a wnaed yn adroddiad AGGCC. Roedd swyddogion cyfrifol wedi eu henwi yn erbyn yr holl gamau gweithredu a rhoddwyd iddynt ddyddiad cau ar gyfer cwblhau'r gwaith. Penderfynodd y Pwyllgor Gwaith bod y Cynllun Gwella Gwasanaeth yn cynnwys yr argymhellion a oedd yn codi o adroddiad AGGCC.

7.10. Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant adroddiad cynnydd ar Gynllun Gwella'r Gwasanaethau Plant i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 10 Ebrill 2017. Bydd cynnydd yn erbyn y Cynllun Gwella'n cael ei fonitro mewn cyfarfodydd misol a gadeirir gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes), lle bydd disgwyl i swyddogion arweiniol gwblhau adroddiadau amlygu ar eu gwaith ar gyfer pob cyfarfod. Bydd siart Gantt lefel uchel yn cael ei defnyddio i olrhain cynnydd a therfynau amser. Mae cyfarfodydd misol gydag AGGCC yn cael eu cynllunio ar hyn o bryd ac mae amserlen fonitro ddrafft wedi cael ei datblygu.

7.11. Bydd monitro cynnydd o ran Cynllun Gwella'r Gwasanaethau Plant yn eitem sefydlog ar raglen y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol o fis Mehefin 2017 ymlaen.

7.12. Rydym o'r herwydd yn gallu rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu bod y Gwasanaethau Plant wedi sefydlu proses i sicrhau bod Cynllun Gwella'r Gwasanaeth, sydd yn ymgorffori argymhellion adroddiad AGGCC, yn cael ei fonitro.